Cyngor Sir Caerfyrddin

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014

# Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheolaethau Cŵn) Cyngor Sir Caerfyrddin 2025

## Cefndir

(a) Mae pobl nad ydynt yn codi baw eu cŵn ar dir y mae gan y cyhoedd fynediad iddo yn niwsans i eraill. Mae presenoldeb baw cŵn yn berygl posibl i bob aelod o'r cyhoedd. Mae'n achosi risgiau i iechyd, yn difwyno'r tir ac mae ganddo'r potensial i niweidio pobl a'u heiddo.

(b) Pan nad ydynt yn cael eu goruchwylio'n briodol a'u cadw dan reolaeth, gall cŵn nad ydynt ar dennyn mewn ardaloedd cyhoeddus achosi damweiniau ffordd, a gallant achosi niwsans i'r cyhoedd ac i anifeiliaid eraill, neu eu hanafu.

(c) Gall cŵn sydd mewn mannau chwarae i blant droi'n ymosodol os cânt eu dychryn. Hefyd gallant fawa yn y mannau hyn, gan ddifwyno ac achosi risg iechyd i blant ifanc sy'n eu defnyddio.

(d) Yn 2016, gwnaeth y Cyngor Orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Rheolaethau Cŵn) Cyngor Sir Caerfyrddin 2016 ("y Gorchymyn Gwreiddiol") i ddelio â'r ymddygiad uchod ar y sail ei fod yn cael, a'i fod yn debygol o barhau i gael, effaith niweidiol ar ansawdd bywyd pobl yn Sir Gaerfyrddin.

(e) Roedd y Gorchymyn Gwreiddiol yn ceisio atal neu leihau'r effeithiau niweidiol y cyfeirir atynt uchod, drwy osod cyfyngiadau a gofynion rhesymol ar bobl tra byddant yn gyfrifol am gŵn ar dir cyhoeddus.

(f) Yn amodol ar nifer o eithriadau a chyfyngiadau, roedd y Gorchymyn Gwreiddiol yn ei gwneud yn ofynnol i bobl:

- Godi baw eu cŵn ar yr holl dir cyhoeddus yn y Sir;
- Rhoi a chadw eu ci ar dennyn heb fod yn fwy na 2 fetr o hyd pan gânt gyfarwyddyd i wneud hynny gan swyddog awdurdodedig o'r Cyngor, lle bo'n angenrheidiol resymol i wneud hynny er mwyn atal niwsans, neu lle bo ymddygiad y ci yn debygol o achosi annifyrrwch neu aflonyddu ar unrhyw un arall, neu o boeni neu aflonyddu ar unrhyw anifail.

- Peidio â mynd â'u ci ar unrhyw fannau chwarae caeedig i blant yn y Sir na gadael i'w ci fynd i nac aros ar unrhyw fannau o'r fath.

(g) Daeth y Gorchymyn Gwreiddiol i rym ar 1 Gorffennaf 2016. Fe'i gwnaed am gyfnod penodol o 3 blynedd.

(h) Yn 2019, cafodd cyfnod y Gorchymyn Gwreiddiol ei ymestyn am gyfnod pellach o 3 blynedd o 1 Gorffennaf 2019 ymlaen.

(i) Yn 2022, cafodd cyfnod y Gorchymyn Gwreiddiol ei ymestyn am gyfnod pellach o 3 blynedd o 1 Gorffennaf 2022 ymlaen.

(j) Mae'r Cyngor yn fodlon bod angen ymestyn cyfnod y Gorchymyn Gwreiddiol am 3 blynedd arall er mwyn atal yr ymddygiad a nodwyd uchod rhag digwydd neu ailddigwydd ar ôl 1 Gorffennaf 2025, neu er mwyn atal cynnydd yn amlder neu ddifrifoldeb yr ymddygiad ar ôl y dyddiad hwnnw.

**Hysbysir trwy hyn** fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwriadu ymestyn cyfnod y Gorchymyn Gwreiddiol o dan adran 60 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014:

Effaith y Gorchymyn Arfaethedig

Bydd y Gorchymyn Gwreiddiol (fel y'i hestynnwyd yn 2019 a 2022) yn cael ei ymestyn am gyfnod pellach o 3 blynedd o 1 Gorffennaf 2025 ymlaen.

Bwrw Golwg ar y Gorchymyn

Gellir gweld copïau o'r Gorchymyn Gwreiddiol (fel y'i hestynnwyd) a'r Gorchymyn arfaethedig ar wefan y Cyngor yn Cŵn yn baeddu a rheoli cŵn mewn mannau cyhoeddus

Dyddiad: 23 Hydref 2024

Steve Murphy
Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil,
Cyngor Sir Caerfyrddin,
Neuadd y Sir,
Caerfyrddin,
SA31 1JP.